# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Committee Room 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 21 Hydref 2020

Amser: 09.31 - 12.21

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6600

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AS (Cadeirydd)<br>Jack Sargeant AS (yn lle Dawn Bowden AS)<br>Hefin David AS<br>Suzy Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Laura Anne Jones AS |
| Tystion: | Kirsty Williams AS, Y Gweinidog Addysg<br>Georgina Haarhoff, Llywodraeth Cymru<br>Kate Johnson, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Tanwen Summers (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Phil Boshier (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd)<br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Masudah Ali (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Sian Hughes (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, cafwyd datganiad gan y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

1.3 Nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, yn unol â Rheol Sefydlog 17.22, y byddai Suzy Davies AS yn cymryd yr awenau fel Cadeirydd dros dro os byddai'n rhaid iddi adael y cyfarfod am unrhyw reswm.

1.4 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dawn Bowden AS, gyda Jack Sargeant AS yn dirprwyo ar ei rhan.

## 2 Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 12 gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Addysg.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn iddi egluro meysydd penodol a drafodwyd yn ystod y sesiwn ac i ofyn y cwestiynau nad oedd amser i'w trafod.

2.3. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

- esboniad ysgrifenedig pam, ym marn Llywodraeth Cymru, y byddai'n amhriodol rhoi dyletswyddau ar bobl/cyrff perthnasol sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil

i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac mai dim ond y Llywodraeth a'r Gweinidogion ddylai fod â dyletswydd o'r fath;

- manylion y gwelliannau/gwelliant y mae'n bwriadu eu cyflwyno, os yw'r Bil yn symud ymlaen at Gyfnod 2, mewn perthynas â'r gofyniad i addysgu Saesneg cyn 7 oed a galluogi trochi yn y Gymraeg;
- y wybodaeth ddiweddaraf am yr amcangyfrifon o ran costau'r Bil ar ôl ailddechrau a chwblhau'r gwaith perthnasol gyda rhanddeiliaid.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**3.1 Llythyr gan Gymwysterau Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 18 Awst**

**3.2 Llythyr gan Brifysgol Bangor at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch y trefniadau i gefnogi myfyrwyr yng ngoleuni COVID-19 (Saesneg yn unig)**

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Cafodd y cynnig ei gytuno.

## 5 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod y sesiwn flaenorol.

## 6 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

6.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith, gan gytuno ar y materion a ganlyn:

- i gynnal sesiwn dystiolaeth y tymor nesaf i drafod busnes sy'n gysylltiedig â COVID-19;

- dull ar gyfer y gwrandawiad cyn penodi'r ymgeisydd a ffafrir ar gyfer rôl Cadeirydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;

- i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg i gyflwyno crynodeb o ganfyddiadau'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad byr i wella ysgolion a chodi safonau, a oedd wedi'i oedi oherwydd y pandemig;

- pa feysydd yr hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio arnynt ym mhob sesiwn ar yr Adroddiad Blynyddol;

- i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am wybodaeth ysgrifenedig fanwl i helpu i lywio gwaith craffu'r Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft;

- i ddychwelyd at y drafodaeth ar gyllid ysgolion yn y dyfodol;

- i ddychwelyd at y drafodaeth ar waith ar etifeddiaeth y Pwyllgor yn y dyfodol; a

- bod staff y Pwyllgor yn cadw llygad ar fframweithiau cyffredin y DU sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor.